**Sesiwn 2000-2001 Rhif 16**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 5 GORFFENNAF 2000

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

Cynigiodd y **Trefnydd** gynnig trefniadol dan Reol Sefydlog 6.16 er mwyn cyflwyno'r cynnig canlynol:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraffau 1(1) a (4) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r Cynghorydd B E Smith (Tor-faen) yn lle'r Cynghorydd John Hopkins (Blaenau Gwent) fel aelod o'r Cyngor Partneriaeth.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O Blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32.

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol.**

**Cymerwyd pleidlais:**

O Blaid 34; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35.

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**2.02pm**

**Cwestiynau i Peter Law, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai**

Gofynnwyd y **3** chwestiwn cyntaf

**Cwestiynau i Sue Essex, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros yr Amgylchedd**
Gofynnwyd y **3** chwestiwn cyntaf

**2.36pm**

**Pwyntiau o Drefn**

1. Jonathan Morgan yngln â gwelliannau a gyflwynwyd ar gynnig adroddiad y pwyllgor addysg cyn 16 oed. Gofynnodd i'r Weithrediaeth ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i rwystro hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried hynny gyda chydweithwyr ar y Pwyllgor Busnes.

2. Gofynnodd Brian Hancock am ddatganiad ar swyddfeydd post. Dywedodd y Trefnydd y dylai gyflwyno cwestiynau. Nododd y Llywydd nad oedd y ffaith bod datganiad wedi'i wneud yn San Steffan yn golygu bod rhaid i'r Cynulliad wneud datganiad hefyd.

**2.42pm**

**Cymeradwyo Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**

O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44.

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn.**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2000.

(b) yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn

y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43.

**Cymeradwywyd y Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) Cymru).**

**2.50pm**

**Mabwysiadu Cynllun y Sector Gwirfoddol**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

(a) wrth weithredu'r gofyniad a ddaw yn sgil Adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, drwy hyn yn gwneud y Cynllun Sector Gwirfoddol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2000;

(b) yn croesawu'r ffaith ei fod yn cymryd cam unigryw wrth wneud y Cynllun hwn sy'n cydnabod rôl ganolog y sector gwirfoddol ym mhob agwedd ar fywyd Cymru ac yn gosod ei ymrwymiadau i'r sector gwirfoddol ar sail statudol;

(c) yn croesawu sefydlu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, fel rhan o'r Cynllun, ac yn mynegi ei werthfawrogiad o waith Cyngor Partneriaeth Cysgodol y Sector Gwirfoddol, yn enwedig wrth fraenaru'r tir ar gyfer y Cynllun; a

(d) yn nodi Rheolau Sefydlog a Phrotocol Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2000 ac yn cytuno y dylai newidiadau i'r dogfennau hyn yn y dyfodol gael eu pennu gan Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ei hun.

(e) yn nodi bod Cyngor Partneriaeth Cysgodol y Sector Gwirfoddol yn cefnogi'r cynnig hwn.

**Cymerwyd pleidlais:**

O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Mabwysiadwyd Cynllun y Sector Gwirfoddol.**

**3.15pm**

**Dadl ar 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn croesawu'r ymateb brwdfrydig a gafwyd hyd yma i'r ymgynghoriad ar Gymunedau yn Gyntaf (gosodwyd copi o 'Rhoi Cymunedau yn Gyntaf - Adfywio Ein Cymunedau Mwyaf Difreintiedig - Papur Ymgynghorol' yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2000), ac yn edrych ymlaen at gam nesaf datblygiad y rhaglen, â'r nod o allu targedu cymunedau erbyn diwedd y flwyddyn;
- yn annog awdurdodau lleol a chyrff statudol a gwirfoddol eraill ym mhob rhan o Gymru i gefnogi egwyddorion 'Rhoi Cymunedau yn Gyntaf' ac i edrych ar sut y gallant weithio mewn partneriaeth i adlinio cyflwyniad gwasanaethau i fodloni'r anghenion a nodwyd ar gyfer y cymunedau hynny sydd mewn perygl mwyaf;
- yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i resymoli polisïau a rhaglenni cyllido cyfredol er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol a hygyrch i gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru; ac
- yn gwahodd pob pwyllgor pwnc i gefnogi rhaglen 'Rhoi Cymunedau yn Gyntaf' yn y trafodaethau ar y cylch cyllideb nesaf.

**Detholwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Janet Ryder (Gogledd Cymru);**

Ym mhwynt bwled 2, ychwaneger cyn ‘yn annog’

'Er yn cydnabod y byddai pob cymuned yn elwa o adlinio a chydlynu‘r dull o ddarparu ac ariannu gwasanaethau, '

**Gwelliant 2 - Janet Ryder (Gogledd Cymru);**

Ychwaneger fel pedwerydd pwynt bwled newydd

'yn croesawu’r symudiad oddi wrth roi grantiau ar gyfer defnydd penodol ac yn cefnogi’r syniad y bydd cymunedau’n cael eu grymuso i nodi’u problemau eu hunain a dyfeisio’u hatebion unigryw eu hunain iddynt.’

**Gwelliant 3 - David Davies (Mynwy);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

"Mae’r Cynulliad yn gresynu’r ffaith bod disgwyl i lawer o gymunedau aros am flwyddyn arall, nes i’r ail ymarfer ymgynghori ddod i ben, cyn i’r Cynulliad ddechrau mynd i’r afael â’r problemau a amlinellwyd yn y papur ymgynghori cyntaf. Yn hytrach na thrafod manteision y cynllun gwerthfawr hwn, dylai’r Cynulliad fod yn cymryd camau pendant i fynd i’r afael ag eithrio cymdeithasol."

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**

Ychwaneger ar y diwedd:

"At hynny, mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi pa mor bwysig yw:

- cydnabod na ellir datblygu cymunedau fel proses ar wahân ac mai’r gymuned ddylai arwain y broses honno
- defnyddio gweithwyr datblygu cymunedol wedi’u hyfforddi’n briodol i ddod â rhaglenni at ei gilydd a sicrhau y cynhwysir pobl leol yn llawn
- mynd i’r afael â chyrhaeddiad addysgol gwael trwy leihau maint dosbarthiadau ac ymdrin â’r gwaith cynnal a chadw ysgolion sydd wedi cronni ar hyn o bryd
- gwella iechyd trwy gyfrwng parthau gweithredu a mynd i’r afael ag ansawdd aer gwael a thai gwael, gan gynnwys defnyddio ardaloedd gwella tai yn briodol

- sicrhau cludiant cyhoeddus y gall pawb ei fforddio er mwyn i bobl allu manteisio ar gyfleusterau hanfodol a chyrraedd mannau cyflogaeth

- sicrhau dilyniant cyllid i'r sector gwirfoddol

- gwneud y defnydd gorau bosibl o arian Ewrop, yn arbennig ar gyfer cynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant

- dod â chynlluniau tai, trafnidiaeth a chynllunio awdurdodau lleol at ei gilydd er mwyn sicrhau agwedd gydlynus tuag at ddatblygu cymunedol"

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47 .

**Cymeradwywyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 46.

**Cymeradwywyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 48 .

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 49.

**Cymeradwywyd gwelliant 4**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49.

**Cymeradwywyd y cynnig , fel y'i diwygiwyd**

**4.24pm**

**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad cynnydd y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2000.

**Detholwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Gareth Jones (Conwy);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig fel pwyntiau bwled:

- Yn cymeradwyo’r Pwyllgor a’r Cynulliad ar eu gwrthwynebiad i gysylltu cyflogau athrawon â pherfformiad disgyblion.

- Yn condemnio Llywodraeth Cymru ar ei methiant i weithredu’u barn.

**Gwelliant 2 - Gareth Jones (Conwy);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled:

- Yn galw am roi’r trefniadau i gynnal astudiaeth o’r cynigion ar gyfer Bagloriaeth Gymraeg ar waith ar unwaith.

**Gwelliant 3 - Gareth Jones (Conwy);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled:

- Yn gresynu at fethiant yr Adran Addysg a Chyflogaeth i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch tâl graddedigion i fyfyrwyr sy’n dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon a’r niwed y mae hynny’n ei achosi i sefydliadau sy’n darparu hyfforddiant o’r fath yng Nghymru.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 50.

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl**

**Gwelliant 3**

O Blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 50.

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Y cynnig**

O Blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 2; Cyfanswm 50.

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**5.06pm**

**Pwynt o Drefn: Lorraine Barrett**, dan Reol Sefydlog 6.5. Teimlai nad oedd digon o amser wedi'i roi i'r ddadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed. Dywedodd y **Llywydd** mai mater i'r Pwyllgor Busnes oedd hynny, a'i fod yn gobeithio y byddai adolygiad yn cael ei gynnal i'r amser a oedd ar gael ar gyfer Adroddiadau Pwyllgor.

**5.07pm**

**Dadl Fer:**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru); Yr Argyfwng mewn Addysg Gymraeg yn Abertawe**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 4 GORFFENNAF 2000**

The National Assembly for Wales' Local Government Partnership Scheme - dim copi Cymraeg ar gael
Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC115) - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000
Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC117) - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000
Memorandwm Cywiriadau mewn Perthynas A Rheol Sefydlog 22.12A - Rheoliadau Diwygio (Rhif 3) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000
Memorandum of Corrections Pursuant to Standing Order 22.12A - The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 - dim copi Cymraeg ar gael
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau I Hybu Cyfle Cyfartal 1999-2000

Morglawdd Bae Caerdydd Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru